Galwad Agored am ddatganiadau diddordeb mewn rhentu uned manwerthu a/neu uned bwyty yng Nghanolfan Yr Hen Bost, Bethesda

Cefndir

Mae Partneriaeth Ogwen wedi prynu safle Yr Hen Bost (sef hen adeilad y Spar) ar Stryd Fawr Bethesda gyda'r bwriad i'w ddatblygu'n ganolfan amlbwrpas eiconig fydd yn cyfrannu tuag at adfywio Stryd Fawr, Bethesda. Y weledigaeth yw gwella'r cynnig twristaidd a datblygu Bethesda fel porth i ymwelwyr cynaladwy i Eryri ond gwneud hyn mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i drigolion lleol. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddatblygu adeilad Yr Hen Bost fel

- gofod manwerthu agored ble bydd crefftwyr lleol yn gallu gweithio a gwerthu eu gwaith,
- gofod bwyty fydd yn cynnig bwyty i drigolion lleol ac ymwelwyr a
- datblygu canolfan dreftadaeth drawiadol ar ffurf estyniad modern i'r adeilad

Mae darluniau cysyniadol o'r adeilad ar ei newydd wedd i'w gweld isod.

Rydym yn awr yn gwneud galwad agored am ddatganiadau diddordeb gan ddarpar fusnesau fyddai eisiau rhentu gofod yn y ganolfan newydd. Mae manylion pellach ar y gofodau sydd a'r gael a'r math o unedwyr yr ydym yn chwilio amdanynt isod.

Y gofodau fydd yn cael eu datblygu yn yr adeilad

Mae adeilad Yr Hen Bost yn adeilad mawr a'n bwriad yw gwneud y gorau o'r gofod trwy greu unedau gweithdy/stiwdio i grefftwyr lleol, creu ystafell amlbwrpas sy'n agor allan i ardd agored yn y cefn, creu uned logi beiciau i ymwelwyr ac uned fawr yn y blaen fyddai'n fwyty. Mae manylion bras yr unedau hyn isod:



Unedau Gweithdai / Stiwdio / Siop

Bydd 6 uned i gyd yn amrywio o ran maint. Bydd yr unedau hyn yn hunangynhaliol gyda blaen yr uned yn wydr ac yn agor allan i goridor llydan a golau. Bydd teimlad o farchnad dan dô i'r coridor hwn a byddwn yn chwilio am unedwyr fydd eisiau gweithio o'r gofod ond hefyd werthu eu gwaith i ymwelwyr a'r ganolfan. Y syniad yw fod ymwelwyr yn cael blas o'r creu yn ogystal â chyfle i brynu.

Mae un o'r unedau (uned 5) eisoes wedi ei neilltuo ar gyfer llogi beiciau trydan i ymwelwyr a mae uned 4 hefyd wedi ei neilltuo fel cegin baratoi i'r gofod bwyty. Mae unedau 1,2,3 a 6 ar gael i'w llogi. O ran maint, mae'r unedau llai oddeutu 5.5m x 3m a'r unedau mwy yn 5.5m x 4m.

Bydd prisiau llogi'r unedau hyn yn amrywio ychydig gan fod rhai ychydig yn fwy nag eraill. Nid ydym wedi pennu'r costau eto ond rydym yn rhagdybio y bydd pob uned rhwng £200 a £300 am rent heb gynnwys costau trydan a gwresogi. Noder isod ein bod yn bwriadu datblygu'r adeilad i safonau carbon sero sy'n golygu y bydd costau rhedeg yn is nag adeiladau traddodiadol.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i unedwyr sy'n:

i) creu neu werthu nwyddau sydd wedi eu ysbrydoli neu eu creu o ddeunydd crai lleol a sy'n adlewyrchu diwylliant yr ardal.
ii) Cwmniau lleol o ddalgylch Dyffryn Ogwen.
iii) Cwmniau fyddai'n gwneud defnydd o'r ystafell amlbwrpas ar gyfer gweithdai cymunedol.
iv) Cwmniau fydd yn adio gwerth i'r holl ganolfan.

Ystafell amlbwrpas

Bydd yr ystafell hon ar gael i'r unedwyr ei llogi ar gyfer cynnal gweithdai celf ayyb ac ar gael i'r gymuned ei llogi yn achlysurol. Bydd yr ystafell efo cyfleusterau cegin fechan at ddefnydd yr unedwyr ond hefyd at ddefnydd digwyddiadau bach. Bydd yr ystafell yn olau iawn gyda drysau'n agor i ardd gymunedol fechan yng nghefn yr adeilad. Bydd y gofod gwyrdd yma yn 'spil-out' o'r ystafell amlbwrpas.

Gofod ar gyfer Gweithdai Celf a Threftadaeth Lleol

Bwyty

Ym mlaen yr adeilad, bydd uned fwy ar gyfer rhentu gofod bwyty. Bydd y gofod yn dod efo un uned fydd yn gegin baratoi bwrpasol (wedi ei leoli yn uned 4 ar y dyluniadau isod). Bydd y gofod bwyty yn eistedd oddeutu 20 o bobl yn ddibynnol ar ofynion y bwyty, gyda gofod bwyta ychwanegol yn rhaeadru allan i'r gofod allanol. Rydym eisiau i'r gofod allanol greu teimlad cymdeithasol ac atyniadol ble byddai pobl leol ac ymwelwyr eisiau dod i fwyta. Gan fod caffi dydd wedi ei leoli drws nesaf i safle'r Hen Bost, rydym eisiau i arlwy'r bwyty newydd fod yn wahanol i'r hyn a gynigir yng Nghaffi Seren. Mae cyfle o'r newydd i sefydlu bwyty o safon a byddem yn ffafrio ceisiadau gan unedwyr fyddai:

i) yn cynnig bwyd gwahanol i be sydd eisoes yn cael ei gynnig gan fwytai ar Stryd Fawr Bethesda
ii) yn cydweithio gyda Chaffi Seren i sicrhau ystod eang o ddewisiadau bwyd i bobl sy'n ymweld â'r ganolfan.
iii) Yn defnyddio cynnyrch lleol yn yr arlwy a gynigir.

Bocs llysiau Blas Lon Las fel rhan o gynllun Cadwyn Ogwen – un o brosiectau Partneriaeth Ogwen

Estyniad – Canolfan Treftadaeth

Bydd y Ganolfan Dreftadaeth yn estyniad 2-3 llawr rhwng yr adeilad presennol a Chaffi Seren. Bydd yr estyniad hwn yn gartref i arddangosfeydd treftadaeth parhaol a theithiol. Mae Partneriaeth Ogwen yn trafod efo Amgueddfa Genedlaethol Cymru a phartneriaid eraill ar ofynion datblygu'r gofod yma ond y bwriad yw creu estyniad trawiadol gyda dyluniad sy'n ategu'r dweud fydd yn digwydd o fewn yr adeilad ei hun.

Bydd union gynnwys y treftadaeth i'w gofnodi yn cael ei drafod gyda'n cymuned.

Rhai o brosiectau treftadaeth diweddar Partneriaeth Ogwen – Pesda 200 a Llechi Cerfiedig

Egwyddorion Craidd Datblygiad Yr Hen Bost

Pensaerniaeth Drawiadol yn adleisio ein treftadaeth

Rydym wedi comisiynu'r pensaer Elinor Gray Williams o gwmni PegwA i arwain ar ddyluniadau'r Hen Bost. Mae Elinor yn bensaer cadwriaethol a threftadaeth sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol am ei gwaith. Mae hi'n ymwybodol o bwysigrwydd Rhes Ogwen o safbwynt treftadaeth Bethesda a gofynion a chyfleoedd dynodiad Safle Treftadaeth Byd diweddar i froydd y Llechi. Bydd hi'n creu dyluniad sy'n cydnabod ein hanes a'i ddehongli mewn modd cyfoes ac eiconig. Mae'r dyluniadau drafft i'w gweld ynghlwm yn rhoi syniad o osodiad a theimlad yr adeilad newydd.

Cynaladwyedd

Mae cynaladwyedd yn rhan greiddiol o holl brosiectau Partneriaeth Ogwen a rydym yn gweithio'n galed i wella effeithlonrwydd ein holl adeiladau. Bydd yr adeilad yn cael ei ddatblygu'n garbon niwtral gyda safonau uchel o ran effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff a chynhyrchiant ynni adnewyddadwy. Mae ymgynghorydd cynaladwyedd eisoes yn edrych ar sut i wneud yr adeilad yn garbon niwtral, yn ynni effeithlon ac yn gynaladwy. Bydd hyn yn gyson a'n gweledigaeth fel cwmni ond bydd hefyd yn lleihau costau rhedeg yr adeilad a'r unedau a osodir i denantiaid.

Paneli solar Ynni Ogwen ar un o adeiladau Partneriaeth Ogwen –

Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

Iaith, Hanes a Diwylliant

Mae’r iaith Gymraeg a’r diwylliant hefyd yn greiddiol i ethos Partneriaeth Ogwen fel menter gymunedol a bydd hi’n ofynnol i bob unedwr ddefnyddio’r Gymraeg yn eu brandio a’u marchnata. Bydd staff Partneriaeth Ogwen ar gael i gynghori ar hyn.

Byddwn hefyd yn ffafrio ceisiadau gan unedwyr sy’n creu cynnyrch sy’n ymateb/cyfleu diwylliant cynhenid yr ardal (o ran deunyddiau neu ysbrydoliaeth).

Gwaith crefft lleol Cwmni AmserAl

Cynlluniau Ehangach Partneriaeth Ogwen

Bydd y datblygiad yn rhan o gynlluniau twristiaeth gynaladwy ehangach Partneriaeth Ogwen. Byddwn yn adleoli ein gwasanaeth llogi beics trydan i’r ganolfan a bydd ein gwasanaeth bws gwennol trydan newydd yn casglu pobl o safle bws sydd wedi ei leoli tu allan i’r ganolfan i’w cludo i fyny i Lyn Ogwen ac yn ôl. Bydd hyn yn sicrhau llif gwell o ymwelwyr i’r Stryd Fawr fydd yn elwa’r ganolfan newydd a’r busnesau eraill yn lleol.

Mae Partneriaeth Ogwen hefyd yn bwriadu datblygu byncws boutique cymunedol yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae byncws cymunedol hefyd yn bodoli yn Nhafarn y Fic ac yng Nghaban Gerlan a byddwn yn cydweithio efo’r mentrau cymdeithasol hyn i ddenu mwy o dwristiaid diwylliannol i’r Ganolfan ac i’r Stryd Fawr.

Prosiect Beics Ogwen fydd yn llogi beiciau trydan o Ganolfan Yr Hen Bost

Gweithio hefo busnesau

Rydym yn frwd i'r ganolfan fod yn gaffaeliad i'r Stryd Fawr ac yn gweld ei ddatblygiad fel cyfle i adfywio Bethesda. Mae nifer o fusnesau wedi cau dros y blynyddoedd ond ar y cyd, gallwn godi hyder mwy o fusnesau i agor siopau ar y Stryd Fawr eto. Bydd Yr Hen Bost gobeithio yn gatalydd i hyn ddigwydd ac yn adeiladu ar ein gwaith da yn cefnogi busnesau bach yr ardal.



Gwefan www.ogwen.cymru – Gwefan i hyrwyddo busnesau lleol a weinyddir gan Bartneriaeth Ogwen

Cyllido

Mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo gyda cheisiadau ariannol sylweddol i brynu a chadw'r adeilad hwn mewn perchnogaeth leol. Rydym yn awr yn ymgeisio am fwy o arian grantiau i adnewyddu'r adeilad i fod yn ganolfan o bwysigrwydd i ddyfodol Bethesda. Mae costau gwneud hynny yn mynd i fod yn sylweddol a mae amcangyfrifon cychwynnol yn oddeutu £1.6 miliwn. Mae cais sylweddol tuag at y costau hyn wedi ei gyflwyno i gronfa Ffyniant Bro (Levelling Up) Llywodraeth San Steffan a byddwn yn cydweithio i ymgeisio am grantiau o nifer o ffynonellau eraill dros y misoedd nesaf. Bydd Partneriaeth Ogwen hefyd yn buddsoddi arian eu hunain i'r fenter bwysig hon.

O ran amserlen, bydd y cais Ffyniant Bro yn cael ei asesu yn yr Hydref. Yn y cyfamser, mae ceisiadau eraill yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill.

Amserlen

Mae hwn yn brosiect hirdymor a mae'r amserlen yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar y cyllid y byddwn yn ei sicrhau. Pe bai'r cais Ffyniant Bro yn llwyddiannus, byddem yn edrych i ddechrau'r gwaith adeiladu cyn diwedd 2022 gyda'r gwaith ar yr adeilad presennol wedi ei gwblhau erbyn canol 2023 a'r estyniad yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2023.

Datganiad Diddordeb

Y bwriad yn awr yw holi am ddatganiadau o ddiddordeb gan fusnesau/crefftwyr/arlwywyr fyddai efo diddordeb cael presenoldeb yn y ganolfan newydd. Nid yw datgan diddordeb yn ymrwymiad ond byddai'n ein helpu ni i ddechrau perthynas adeiladol gyda darpar unedwyr.

Os yw manylion y pecyn hwn yn eich cyffroi chi a'ch bod chi eisiau bod yn rhan o ddatblygiad hynod gyffrous ym Methesda, plis llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at partneriaeth@ogwen.org

FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB

Dyma ffurflen i ddatgan diddordeb mewn cymryd uned neu ofod bwyty yn natbygiad Canolfan Yr Hen Bost. Nid yw'r ffurflen hon yn ein ymrwymo ond bydd yn gam cyntaf wrth i ni ddewis unedwyr i'r ganolfan newydd.

Enw:

Enw Cwmni:

Cyfeiriad:

Ebost:

Rhif Cyswllt:

Nodwch os gwelwch yn dda pa uned fyddai o diddordeb i chi:

Uned 5.5 x 4m ☐ Uned5.5 x 3m ☐ Bwyty ☐

Nodwch isod unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach:

Dychwelwch y ffurflen at:

Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AE

neu drwy ebost: partneriaeth@ogwen.org